



# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 68  
MEDI 2014

Buom yn ffodus eleni i fynd ar ein gwyliau i'r Swisdir a gogledd yr Eidal. Wedi treulio pythefnos arbennig iawn yn cerdded ar hyd hen lwybr fasnach y *Via Spluga* daeth yr amser i droi am adref, a chawsom ein cludo gan drên y *Bernina Express* o Tirano yn yr Eidal draw i San Moritz yn y Swisdir. Mae rheilffordd y *Bernina Express* yn un tra enwog a chanddi statws arbennig, dim llai na *Unesco World Heritage Status*. Dyma'r rheilffordd uchaf yn yr Alpau wrth iddi ddringo i fyny i uchder o 2253 medrau; mae'n cynnwys 196 o bontydd a 55 o dwneli ac yn addo golygfeydd arbennig iawn o'r tirlun gan gynnwys llynnoedd, mynyddoedd a rhewlifoedd. Felly wrth gychwyn ar y daith adref roedd gennym ddisgwyliadau mawr ac edrychem ymlaen at weld mwy o ogoniant yr Alpau cyn i'r gwyliau ddod i ben.

Ond roedd siom yn ein disgwyl! Roedd hi'n bwrw glaw, yn niwlog a dim sôn am heulwen braf ac o ganlyniad cawsom ein rhwystro gan y tywydd gwael rhag gweld prydfferthwch yr ardal wrth i'r tren nadreddu ei ffordd yn ofalus dros y ffin i'r Swisdir. Er inni lwyddo i gael ambell gipolwg o rai o'r llynnoedd a'r mynyddoedd wrth i'r niwl godi am ennyd, prin iawn oedd y panorama o'r golygfeydd godidog. Ar y cyfan roedd yr olygfa o'r trên yn ddiflas ac yn llwydaidd iawn. Er hynny, roeddem yn gwbl ymwybodol fod yna olygfeydd arbennig y tu ôl i'r glaw a'r niwl a rhaid oedd ymddiried yn y disgrifiad yn y llyfr tywys a cheisio dychmygu beth yn union oedd yn cuddio y tu ôl i'r hen dywydd garw.

Fel Cristnogion cawsom ein dysgu am brydfferthwch ein Harglwydd Iesu Grist: ei gymeriad, ei weithredoedd a'i ysbryd. Ond nid peth rhwydd bob amser yw gweld ysbryd y Crist byw ar waith yn ein byd. Gwyddom am ddiflastod yr hil ddynol sydd yn ein rhwystro rhag gweld ei ogoniant yn cael ei amlygu, megis hunanoldeb, creulondeb, casineb a difaterwch. Wrth inni dystio i gymaint o ddrygioni o'n cwmpas digon rhwydd yw credu bod Duw wedi ein hamddifadu o'i bresenoldeb dwyfol. Ond cofiwn i'r Iesu ddweud wrthym na fyddai byth yn ein hamddifadu: *Ni adawaf chwi'n amddifad.* (Ioan 14:18)

Er gwaethaf yr holl wrthdaro a welir yn ein byd heddiw boed i addewid Iesu ein hysbrydoli o'r newydd i weithio drosto, i rannu ei gariad ac i symud yr holl bethau hynny sydd yn rhwystro'r byd rhag ei weld.

*Pan rwystrir ni gan bethau'r llawr  
i weled ei ogoniant mawr  
gwyn fyd y pur o galon sydd  
yn gweled Duw drwy lygaid ffydd.*

D. Gwyn Evans

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

**CALENDR MIS Medi 2014**

<b>Cyhoeddwr y Mis: Robert Dobson</b>	<b>Organydd y Mis : Mair Evans</b>	
7 Medi 10.30yb  2.30yp	Ysgol Sul dan ofal Zoe  Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mairwen a Ceris
14 Medi  10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
21 Medi  10.30yb  2.30yp	Ysgol Sul  Oedfa arbennig i ddathlu 40 mlwyddiant y Parchg Peter Thomas, Gweinidog Anrhydeddus Bethel a Horeb, yn y weinidogaeth.	Gofal y Te:
28 Medi  10.30yb	Ysgol Sul  Oedfa Bregeth: Gweinidog	
5 Hydref  2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue

**I'CH DYDDIADUR**

10 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys : 12.00-1.30yp  
 17 Medi: Cyfarfod Trafod Undeb Bedyddwyr Cymru yn Eglwys y Tabernacl, Caerfyrddin  
 19 Medi: Seminar Estyn Llawn yn y Morlan o 4.00yp-8.30yh  
 23 Medi: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp  
 24 Medi: Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd yn Ainon, Ynyshir  
 24 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: 12.00-1.30yp Horeb yn gyfrifol am weini  
 24 Medi: Noson Agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb am 7.30yh  
 30 Medi: Cyfarfod Bethel a Horeb yn cael ei ddilyn gan Gyfarfod Diaconiaid Horeb  
 1 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb yng nghwmni Sian Howys am 7yh

**LLOFFION**

**Llongyfarchiadau** i Rhian ac Iwan ar enedigaeth eu mab, Gruffudd Iwan a llongyfarchiadau i Gillian a Robert ar ddod yn fam-gu a thaid.

**Llongyfarchiadau** i Peter a Meryl ar ddathlu eu Priodas Ruddem ym mis Awst.

**Dymunwn Ben-blwydd hapus iawn** i Dafydd Parry a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn mis Medi.

**Dymuniadau gorau** i Ceri wedi iddi gael codwm yn ystod mis Gorffennaf. Brysia wella!

**Barbeciw:** Diolch yn fawr iawn i Sandra am ddarparu'r barbeciw ym mis Gorffennaf. Diolch i Sian am gael benthyc y stablau, i Janice am gydlynu'r bwydydd ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Codwyd swm o £114 tuag at y capel.

**Gŵyl Coeden Nadolig:** 6-14 Rhagfyr yn Eglwys Sant Ioan: Ar ôl llwyddiant y llynedd, estynnir gwahoddiad unwaith eto i holl sefydliadau, mudiadau, cymdeithasau yr ardal i gymryd rhan. Thema eleni yw 'gwledydd y byd'. Cysylltwch â Meriel Ralphs am fwy o fanylion. Oherwydd poblogrwydd yr ŵyl y llynedd, cyfyngir y lle i arddangos; felly, y cyntaf i'r felin.

**Cymdeithas Celf Ceredigion:** Cynhelir arddangosfa gan Gymdeithas Celf Ceredigion yn Festri Bethel o 8-27 Medi. Croeso cynnes i bawb.